**Adroddiad ar**

**Gylch Chwarae Sant Padarn**
**Heol Llanbadarn**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 1EZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Chwarae Sant Padarn

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Chwarae Sant Padarn |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Rebecca Barratt |
| Person â gofal | Rachel Cutter |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 i 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 16 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 3 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8.30am i 5.45pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor ysgol |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 17/08/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 11/03/2013 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 19/11/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Mae gan bron i hanner y plant yn y lleoliad anghenion addysgol arbennig ac mae'r lleiafrif ohonynt yn siarad Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Gwael** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Gwael** |

## Diffyg cydymffurfio

**Gwnaethom hysbysu'r darparwr nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol, y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw:**

- Rheoliad 30 (1) (a) oherwydd nad oedd cofnod llawn a chywir o oriau presenoldeb y plant na phwy oedd yn edrych ar eu hôl

- Rheoliad 28 (2) (b) (ii) oherwydd na chwblhawyd yr holl wiriadau addasrwydd perthnasol ar aelodau staff cyn iddynt ddechrau gweithio yn y lleoliad

Nid ydym wedi cyhoeddi hysbysiad ar yr achlysur hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol neu arwyddocaol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r unigolyn cyfrifol gymryd camau i unioni'r materion hyn a byddwn yn dilyn trywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad 22 (1) (a) oherwydd nad yw'r ymarferwyr a'r arweinwyr wedi dilyn gweithdrefnau diogel mewn perthynas ag amddiffyn plant.

**Mae hwn yn fater difrifol ac rydym wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio i'r darparwr.**

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod darpariaeth ac adnoddau'n bodloni anghenion a diddordebau ystod oedran lawn y plant, gan gynnwys plant sy'n mynychu'r clwb ar ôl ysgol

A2 Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol fynd i'r afael â'r holl faterion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A3 Sicrhau bod yr holl bolisïau'n cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau ac y cânt eu cymhwyso'n gyson

A4 Sicrhau bod cynllunio strategol yn canolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol ac yn arwain at welliannau amserol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Estyn a Phrif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru o'r farn bod angen gwelliant â ffocws mewn perthynas â'r lleoliad hwn. Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn ac AGC yn monitro cynnydd y lleoliad bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant wedi ymgartrefu ac yn ymdopi'n dda â gwahanu oddi wrth eu rhieni. Maent yn chwarae â'u cyfoedion ac ymarferwyr yn hamddenol ac yn hapus. Mae plant yn elwa ar broses ymgartrefu hyblyg lle caiff eu hanghenion unigol eu hystyried yn llawn. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau dod i'r lleoliad ac mae plant hŷn yn hyderus y gallant rannu eu pryderon ag ymarferwyr a gofyn am gymorth ganddynt.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Maent yn rhannu'n briodol â'u cyfoedion y rhan fwyaf o'r amser ac yn dangos ystyriaeth tuag at bobl eraill, fel pan fydd plant yn dod o hyd i eitemau sy'n perthyn i'w cyfoedion ac yn eu dychwelyd yn ddigymell. Mae bron pob un o'r plant yn tacluso gyda'i gilydd heb anogaeth.

Mae bron pob plentyn yn y cylch chwarae yn mwynhau chwarae; maent yn ymgysylltu'n llawn â chwarae rhydd ac yn cyfranogi'n dda mewn gweithgareddau grŵp. Er enghraifft, cyhoeddodd plant iau yn falch eu bod yn gwneud 'cacen pen-blwydd' i ymarferydd yn ystod sesiwn chwarae rôl. Mae'r rhan fwyaf o blant hŷn yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis, fel perfformio sioe gyda'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw'r ystod o weithgareddau sy'n cael eu cynnig yn y clwb ar ôl ysgol yn adlewyrchu diddordebau lleiafrif o'r plant hŷn ac nid ydynt yn ennyn eu diddordeb yn ddigon da. O ganlyniad, mae ychydig o blant yn ymddwyn yn swnllyd yn ardal y siop ac yn amharu ar chwarae plant iau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn y cylch chwarae yn hyderus y bydd ymarferwyr yn gwrando ar eu barn. Mae plant yn y cylch chwarae yn gwneud dewisiadau'n gyson ac yn cyfrannu eu syniadau at gynllunio gweithgarwch. Er enghraifft, maent yn nodi'r pethau yr hoffent eu gwneud ar fap meddwl. Gwna plant hŷn ddewisiadau annibynnol am yr hyn yr hoffent ei wneud yn y clwb ar ôl ysgol, er enghraifft chwarae gemau egnïol neu ymlacio.

Yn y cylch chwarae, mae bron pob plentyn yn datblygu ystod o fedrau'n llwyddiannus drwy arferion dyddiol a gweithgareddau chwarae. Maent yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n dda drwy siarad am eu chwarae ag ymarferwyr a chanu caneuon cyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn siarad yn agored â'u cymheiriaid ac ymarferwyr am eu newyddion. Mae bron pob plentyn yn siarad yn eglur ac yn mynegi eu hanghenion yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn esbonio'r hyn yr hoffent ei wneud neu na hoffent ei wneud. Mae llawer o blant yn dangos mwynhad yn y gweithgareddau sydd ar gael ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnal diddordeb a'u gallu i ganolbwyntio am gyfnodau estynedig, er enghraifft wrth ddefnyddio adnoddau crefft i wneud wynebau o blatiau papur. Mae bron pob plentyn yn ymateb yn dda i ganmoliaeth reolaidd wrth gwblhau gweithgaredd. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad i'r rhan fwyaf o blant.

Mae plant yn y cylch chwarae yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda. Mae bron pob un ohonynt yn rhoi cynnig ar wisgo eu dillad ac esgidiau awyr agored eu hunain, ac mae llawer ohonynt yn gwneud hynny'n llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn arllwys cwpan o ddŵr o jwg iddyn nhw'u hunain ac yn mynd â'u platiau a'u cwpanau

yn ôl i'r gegin ar ôl iddynt orffen â nhw. Maent yn dod o hyd i'w henwau ar begiau i hunangofrestru. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i blant hŷn ddatblygu eu hannibyniaeth ac ymgysylltu'n bwrpasol â phlant iau yn y clwb ar ôl ysgol yn fwy cyfyngedig.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae llawer o blant yn dangos lefel uchel o ddyfalbarhad wrth ddatrys problem neu feistroli medr. Maent yn mwynhau eu dysgu, yn gwneud dewisiadau hyderus ac yn ymgysylltu'n dda ag oedolion a phlant eraill.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau cyfathrebu da. Mae llawer ohonynt yn siarad yn glir ac yn hyderus am yr hyn y maent yn ei wneud ac yn cyfrannu'n briodol at sgyrsiau â'i gilydd ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio brawddegau syml i gyfleu ystyr. Mae'r lleiafrif ohonynt yn siarad yn faith am bethau sy'n tanio eu brwdfrydedd ac yn esbonio'r hyn y maent yn ei wneud neu sut maent yn teimlo. Mae bron pob plentyn yn ymuno'n frwdfrydig â chaneuon cyfarwydd yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda ar storïau cyfarwydd, yn ymateb yn gadarnhaol i gwestiynau ac yn ymuno ag ymadroddion cyfarwydd. Maent yn mwynhau edrych ar lyfrau ac yn eu trin yn ofalus iawn. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau fel darllenwyr, gan sicrhau bod llyfrau y ffordd gywir i fyny a throi'r tudalennau'n ofalus.

Mae llawer o blant yn gwneud marciau â hyder cynyddol gan ddefnyddio ystod eang o offer, er enghraifft wrth wneud nodiadau yn ysgol y goedwig. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dal offer ysgrifennu gan ddefnyddio gafael priodol a ffurfio llythrennau a siapiau adnabyddadwy. Mae llawer o blant yn ysgrifennu eu henwau â chymorth a gall ychydig o blant wneud hynny'n annibynnol.

Gwna'r rhan fwyaf o blant gynnydd da wrth ddatblygu medrau rhifedd. Maent yn dechrau defnyddio iaith fathemategol ar draws ystod o gyd-destunau, er enghraifft i gymharu hyd brigau y maent wedi dod o hyd iddynt y tu allan. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn adnabod ac yn defnyddio enwau siapiau dau ddimensiwn yn llwyddiannus. Mae bron pob plentyn yn cyfrif i ddeg â chymorth ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cyfrif i bump trwy gyffwrdd. Gall ychydig o blant mwy abl gyfrif i ugain yn annibynnol ac maent yn adnabod rhifau hyd at ddeg. Maent yn adio dau rif at ei gilydd yn llwyddiannus, fel cyfrif nifer y coesau sydd gan ddau fwystfil bach.

Mae llawer o blant yn defnyddio ystod o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fwyfwy hyderus a heb lawer o gymorth gan ymarferwyr. Er enghraifft, mae plant yn tynnu lluniau ac yn darllen codau gan ddefnyddio llechen electronig, ac yn rhaglennu teganau electronig yn gywir.

Mae bron pob plentyn yn dangos medrau corfforol da. Maent yn neidio, sgipio, rhedeg ac yn ymestyn yn hyderus, yn enwedig yn ysgol y goedwig, lle maent yn ymdopi'n fedrus â llethrau serth a thir anwastad. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio ystod o offer bach, fel siswrn, yn fwyfwy medrus. Mae bron pob plentyn yn dal a thaflu pêl yn hyderus â dwy law.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau Cymraeg yn dda. Maent yn ymateb yn hyderus i gyfarwyddiadau a chwestiynau syml gan oedolion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn adnabod yr enwau Cymraeg ar gyfer gwrthrychau cyfarwydd, fel pili-pala, ac yn enwi'r lliwiau sylfaenol ag ychydig iawn o gymorth gan oedolion.

**Gofal a datblygiad: Gwael**

Nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder difrifol. Mae angen gwella ei bolisïau diogelu ac nid yw arweinwyr ac ymarferwyr yn dilyn ac yn cymhwyso gweithdrefnau amddiffyn plant yn ddigon da. Mae hyn yn fater difrifol a chyflwynwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.

Mae ymarferwyr yn goruchwylio plant yn dda yn y lleoliad ac yn eu hatgoffa'n rheolaidd ynghylch sut i aros yn ddiogel. Er enghraifft, maent yn sefydlu ac yn atgyfnerthu rheolau ar gyfer ardal ysgol y goedwig ac yn addysgu'r plant sut i groesi'r ffordd yn ddiogel. Mae pob un o'r ymarferwyr yn cymhwyso eu hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin â damweiniau, cofnodi digwyddiadau ac yn rhoi meddyginiaeth yn effeithiol. Maent yn cymryd camau cyflym a phriodol pan fydd damwain yn y digwyddiad.

Mae ymarferwyr yn cynorthwyo'r plant yn dda i gadw'n iach. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid da wrth newid clytiau ac wrth roi bwyd. Maent yn annog plant i olchi eu dwylo, pan fo hynny'n briodol. Mae ymarferwyr yn darparu ystod o fyrbrydau iach, fel ffrwythau, cacennau reis a thost, ac yn sicrhau y gall plant gael diod o ddŵr drwy gydol y dydd. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd iawn i blant chwarae y tu allan.

Mae ymarferwyr yn ofalgar ac yn garedig. Maent yn creu amgylchedd cadarnhaol ac yn siarad â'r plant mewn modd cynnes ac adeiladol drwy gydol y dydd. Maent yn defnyddio strategaeth ymddygiad effeithiol a chadarnhaol yn dda. Maent yn canmol plant yn aml ac mae hyn yn eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn sylwgar ac yn rhagweithiol, ac yn ymyrryd yn briodol i gynorthwyo plant a'u helpu i reoli eu hymddygiad yn briodol. Maent yn ymateb yn bwyllog ac yn gadarnhaol iawn i'r achosion prin o ymddygiad heriol, gan swatio i lefel y plentyn, gwneud cyswllt llygad da a siarad â llais mwyn.

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd anogol ac yn ddelfryd ymddwyn da i'r plant. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson ac fel rhan o'r arfer ddyddiol. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg ar yr aelwyd mewn modd sensitif ac, o ganlyniad, mae'r plant hyn yn dangos lefel uchel o hyder wrth gyfathrebu â phobl eraill.

Mae ymarferwyr yn cynorthwyo datblygiad unigol plant yn effeithiol. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn arsylwi eu medrau'n rheolaidd. Maent yn cynorthwyo plant yn dda yn eu gweithgareddau chwarae a'u gweithgareddau â ffocws. Er enghraifft, maent yn defnyddio cwestiynau penagored i ddatblygu medrau cyfathrebu a medrau meddwl plant. Mae ymarferwyr yn gwybod pa strategaethau i'w defnyddio i gynorthwyo plant unigol ag anghenion addysgol arbennig. Maent yn darparu sesiynau iaith a lleferydd yn ôl y gofyn ac yn cydweithio'n agos â gweithwyr proffesiynol i helpu i asesu anghenion plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn sefydlu perthynas waith dda â'r plant. Maent yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth yn effeithiol i gynorthwyo dysgu a lles. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn cynnig ystod o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb bron pob plentyn yn llwyddiannus.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o gwricwlwm y cyfnod sylfaen. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd i gynllunio profiadau dysgu gwerthfawr, dan do ac yn yr awyr agored, ac yn dilyn ac yn ymateb yn dda i ddiddordebau plant. Er enghraifft, maent yn nodi'r hyn y mae plant eisiau ei ddysgu yn y thema anifeiliaid yr hydref, fel gwneud cacen yr hydref, gan ddefnyddio mapiau meddwl.

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n llwyddiannus i ddatblygu medrau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd a TGCh plant. Maent yn addasu tasgau fel eu bod yn bodloni anghenion bron pob plentyn yn y cylch chwarae, gan gynnwys plant ag anghenion arbennig a phlant mwy abl. Er enghraifft, maent yn annog plant mwy abl i wneud cacennau mwd gan ddilyn nifer fwy o gyfarwyddiadau.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn arsylwi plant ac yn cyfarfod â'i gilydd i drafod a chofnodi cynnydd unigolion yn rheolaidd. Maent yn defnyddio'r wybodaeth maent yn ei chasglu yn addas i gynllunio ac addasu gweithgareddau sy'n cynorthwyo ac yn herio plant yn fuddiol. Maent yn darparu cydbwysedd da rhwng gweithgareddau dan arweiniad oedolion a rhai sy'n cael eu sbarduno gan blant. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut a phryd i gynorthwyo plant i'w helpu i symud ymlaen yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn defnyddio holi'n briodol i ddatblygu medrau a hyder plant.

Mae ymarferwyr yn defnyddio ymwelwyr ac ymweliadau â mannau o ddiddordeb yn fuddiol i ddarparu profiadau dysgu dilys, fel mynd i'r llyfrgell leol i ddewis llyfr, ymweld â'r siop leol i brynu bwyd a defnyddio arian mewn sefyllfa go iawn. Maent yn manteisio ar gyfleoedd cynlluniedig ac anghynlluniedig i alluogi plant i gael profiad o ymdeimlad o ryfeddod a pharchedig ofn, er enghraifft drwy eistedd â'u llygaid ar gau yn gwrando ar synau yn ardal ysgol y goedwig a gwylio neidr gantroed yn cropian o dan foncyff.

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod addas o gyfleoedd i blant ddysgu am ddiwylliannau eraill, er enghraifft drwy ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Divali. Maent yn darllen storïau o ddiwylliannau gwahanol, fel Syrpreis Handa, ac yn eu defnyddio fel symbyliad ar gyfer blasu bwyd a gweithgareddau chwarae rôl.

Mae gweithgareddau gwerthchweil i blant gael profiad o iaith a diwylliant Cymru a dysgu amdanynt. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg drwy gydol y dydd ac yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant glywed storïau yn Gymraeg a chanu caneuon Cymraeg traddodiadol.

**Yr amgylchedd: Digonol**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod mesurau priodol ar waith i gadw plant yn ddiogel yn gorfforol. Er enghraifft, maent wedi darparu ffens a

giât newydd o amgylch yr ardal chwarae allanol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y toiledau a'r gegin yn cael eu cadw'n lân. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r amgylchedd yn cael ei gynnal a chadw'n ddigon da. Er enghraifft, mae rhannau a'r ardal chwarae yn llaith ac nid oes system effeithiol i gadw pob ardal yn y lleoliad yn lân. Mae asesiadau risg yn cael eu cwblhau ar gyfer pob ardal yn y lleoliad ac ar gyfer ymweliadau. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cael eu defnyddio'n effeithiol i wella ansawdd y ddarpariaeth, fel darparu adnoddau sy'n briodol ar gyfer oedrannau'r plant i fodloni anghenion plant hŷn sy'n mynychu'r clwb ar ôl ysgol.

Mae ymarferwyr yn manteisio i'r eithaf ar y lle sydd ar gael i ddarparu amgylchedd cyfoethog a hygyrch i chwarae a dysgu dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r ardal chwarae allanol yn uniongyrchol hygyrch o'r adeilad, sy'n caniatáu i'r plant symud yn rhwydd pan fydd y tywydd yn addas. Mae plant yn elwa ar allu defnyddio buarth yr ysgol, lle mae ganddynt fwy o le i symud o gwmpas, chwarae gemau pêl a gyrru cerbydau bach. Mae'r lleoliad yn defnyddio ysgol y goedwig ddwywaith yr wythnos, sy'n darparu lle naturiol i'r plant archwilio a chwarae.

Mae gosodiad a dyluniad yr amgylchedd yn annog annibyniaeth plant iau'n effeithiol. Er enghraifft, mae'r toiledau'n hawdd mynd atynt o'r brif ardal chwarae. Mae basnau, sebon a llieiniau papur ar lefel y plant er mwyn iddynt allu golchi eu dwylo'n annibynnol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw dodrefn y lleoliad, gan gynnwys byrddau a chadeiriau, yn addas i blant hŷn.

Mae'r ardaloedd dysgu wedi'u diffinio'n dda a gall plant iau fanteisio ar ystod eang o adnoddau addas. Er enghraifft, mae gan yr ardal chwarae rôl gyflenwad da o adnoddau priodol i ategu chwarae dychmygus. Mae arweinwyr yn darparu nifer dda o adnoddau naturiol a synhwyraidd, fel dail, moch coed, concyrs, graean, mwd a thywod i blant eu harchwilio. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r teganau a'r gemau sy'n cael eu defnyddio yn y clwb ar ôl ysgol yn addas i'r plant hŷn sy'n mynychu'r lleoliad. Mae ystod, ansawdd a hygyrchedd yr adnoddau hyn yn gyfyngedig.

Mae blychau adnoddau ar gael i'w defnyddio ar adegau perthnasol ar gyfer dathliadau amlddiwylliannol, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Fodd bynnag, nid yw adnoddau i hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn hygyrch o ddydd i ddydd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Gwael

Mae arweinwyr yn hyrwyddo ethos cynhwysol mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol sy'n cynorthwyo plant yn y cylch chwarae yn dda. Maent yn rhannu eu nodau a'u gweledigaeth yn briodol drwy'r wybodaeth maent yn ei darparu i rieni ac ar gyfryngau cymdeithasol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn cydweithio â'i gilydd yn effeithiol a bod rhyngweithiadau dyddiol rhwng ymarferwyr a rhieni yn gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn cydymffurfio â phob un o reoliadau AGC. Nid yw arweinwyr a rheolwyr yn dilyn gweithdrefnau amddiffyn plant yn gyson. Mae hwn yn fater difrifol a chyhoeddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae gan y lleoliad bolisïau perthnasol, ond nid yw arweinwyr yn sicrhau bod y rhain yn cael eu cadw'n gyfredol â'r holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i gynorthwyo ymarferwyr yn effeithiol. Nid ydynt yn cadw cofnodion digon manwl o bresenoldeb plant ac ymarferwyr, ac nid ydynt yn dilyn prosesau recriwtio diogel yn gyson.

Mae arweinwyr yn cynnwys y rhan fwyaf o ymarferwyr yn briodol mewn gwerthuso ansawdd darpariaeth y cylch chwarae yn rheolaidd.  Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn dangos ymrwymiad i sicrhau gwelliant ac yn gweithredu'n briodol i wella deilliannau i blant iau.  Er enghraifft, maent wedi datblygu'r ardal chwarae allanol, cyflwyno proffiliau un-tudalen i gynorthwyo plant ag anghenion addysgol arbennig, a gwella cyfathrebu â rhieni.  Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwerthuso ansawdd darpariaeth yn y clwb ar ôl ysgol er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni anghenion plant yn ddigon da.  Yn gyffredinol, mae'r ardaloedd y nodwyd eu bod yn brif flaenoriaethau ar gyfer gwella yn y lleoliad yn rhy eang, ac mae hyn yn golygu nad yw arweinwyr yn gallu canolbwyntio'n ddigon da ar gamau gweithredu penodol o fewn amserlen hylaw.

Mae gan y lleoliad system sefydledig ac effeithiol ar gyfer goruchwylio ac arfarnu.  O ganlyniad, mae staff yn teimlo y cânt eu cynorthwyo'n dda ac yn hyderus wrth gyflawni eu rôl.  Mae ymarferwyr yn manteisio ar bob cyfle i fynd ar gyrsiau hyfforddiant sy'n eu helpu i ddatblygu'n broffesiynol a mynd i'r afael â blaenoriaethau'r lleoliad.  Mae'r rhain yn cynnwys datblygu'r Gymraeg a chynorthwyo plant ag anawsterau iaith a lleferydd.  Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â phrofiad o weithio â phlant ifanc.  Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cydymffurfio'n llawn â'r holl brosesau recriwtio diogel.

Mae partneriaethau â rhieni a gofalwyr yn gryf.  Maent yn teimlo bod croeso iddynt yn y lleoliad ac yn hyderus y gallant fynd at ymarferwyr os oes ganddynt bryder neu gŵyn.  Mae ymarferwyr yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gwybod pa mor dda mae eu plant yn ei wneud a beth maent wedi'i gyflawni yn ystod y dydd.  Mae hyn yn cynnwys darparu cyfarfodydd tymhorol lle maent yn rhannu gwybodaeth fanwl am gynnydd plant.  Mae ymarferwyr yn rhoi cyngor buddiol i rieni i'w galluogi i gynorthwyo eu plentyn yn effeithiol gartref ac, o ganlyniad, mae'r effaith ar ddysgu a lles plant yn gadarnhaol iawn.  Mae partneriaeth gref â'r ysgol leol sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall.  Mae pontio i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd gref ac yn golygu bod bron pob plentyn yn trosglwyddo'n llwyddiannus i'r ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/01/2020